# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG DYDD MAWRTH, 23 CHWEFROR 2021

**Yn bresennol:** **Cynghorwyr** : Elfed Williams (Cadeirydd), Anwen Hughes a John Brynmor Hughes

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM ADOLYGIAD TRWYDDED EIDDO**

**Ar ran Heddlu Gogledd Cymru:**

Arolygydd 2600 Chris Hargrave
PCSO Lis Williams

**Ar ran yr eiddo:**

| | |
|---|---|
| Ms Hayley Meek | Deilydd trwydded Waverley Hotel, Bangor |
| Michael Strain | Cyfreithiwr |

**Eraill a wahoddwyd:**

Moira Duell Parry - Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
Robert Taylor – Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Amlygodd y Cadeirydd y byddai gan bob parti hawl i hyd at 10 munud i gyflwyno eu sylwadau

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu ar gais gan yr Arolygydd Chris Hargrave ar ran Heddlu Gogledd Cymru am adolygiad trwydded eiddo ar gyfer Y Waverley Hotel, Bangor. Gwnaed y cais oherwydd

- methiant cydymffurfio gydag amodau'r drwydded eiddo mewn perthynas ag amodau TCC
- methiant gofyn am brawf oedran i unigolion sy'n ymddangos i fod o dan 18
- methiant deilydd y drwydded i gadw rheolaeth yng nghyd-destun yr argyfwng Covid -19.

Amlygwyd bod yr Heddlu yn nodi pryderon gan y Cyhoedd am yr eiddo a'r diffygion rheolaeth. Ategwyd bod deiseb ar lein yn gofyn am i'r eiddo gael ei gau i lawr gyda 'channoedd' wedi arwyddo'r ddeiseb.

Adroddwyd bod yr Heddlu wedi ystyried cynnig i ddeilydd y drwydded gyflwyno cais am Fân Amrywiad o'r drwydded eiddo. Oherwydd yr amgylchiadau, a methiannau niferus deilydd y drwydded i reoli'r sefyllfa, roedd yr Heddlu yn awyddus i gyflwyno'r cais i'r Is- Bwyllgor er mwyn sicrhau adolygiad llawn gan argymell addasiadau i'r drwydded.

Tynnwyd sylw at y materion roedd yr Heddlu wedi eu hargymell i ddeilydd y drwydded. Adroddwyd bod gohebiaeth wedi bod rhwng deilydd y drwydded, swyddog trwyddedu'r Heddlu, a'r Cyngor oherwydd methiant i weithredu'r argymhellion - cafodd argymhelliad i sicrhau fod goruchwylwyr drysau ar yr eiddo bob nos Wener a Nos Sadwrn ei anwybyddu ar y cyfan. Dadleuwyd bod angen i hyn gael ei gynnwys fel amod ar y drwydded er mwyn galluogi monitro cydymffurfiaeth.

Cyfeiriwyd at y problemau a ganfuwyd yr Heddlu ynghyd a'r amodau trwyddedu a argymhellwyd ganddynt ar gyfer eu cynnwys ar y drwydded eiddo

Tynnwyd sylw at yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nodwyd bod
Uned Gwarchod y Cyhoedd, Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi cyflwyno sylwadau a chefnogaeth i'r adolygiad

Roedd yr Uned Gwarchod y Cyhoedd yn amlygu cefnogaeth i'r adolygiad ar sail yr amcan trwyddedu o ddiogelu'r cyhoedd ac atal niwsans cyhoeddus. Roedd pryderon gan y Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu am anwybyddu rheolau pellter cymdeithasol o dan gyfyngiadau covid hefyd yn sail i gefnogi'r adolygiad. Roedd y Gwasanaeth Tân wedi amlygu materion diogelwch tân oedd angen sylw deilydd y drwydded.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Argymhellwyd i'r Is-bwyllgor ystyried a chaniatáu adolygiad o drwydded yr eiddo gan yr Heddlu

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu
- Gwahodd yr Heddlu i ymhelaethu ar y cais
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r Heddlu
- Gwahodd deilydd y drwydded neu gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoi cyfle i'r ymgynghorai gyflwyno eu sylwadau
- Rhoi cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

a’r ymgynghorai

b) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr Arolygydd ei fod yn hapus gyda’r hyn oedd wedi ei gyflwyno. Ategodd bod y system TCC yn un o ansawdd, ond nad oedd yn cynnig gwelededd llawn o’r fynedfa nac ardaloedd o fewn y dafarn. Nodwyd bod ambarelau ar fyrddau yn y maes parcio yn creu rhwystr gan atal gwelededd clir. Awgrymodd y byddai’n fodlon trafod a rhoi cyngor i ddeilydd y drwydded ar sut i wella’r ddarpariaeth TCC. Yng nghyd-destun yfed dan oed, mynegodd yr Arolygydd mai prin iawn yw presenoldeb cynrychiolydd y Waverley mewn cyfarfodydd Pubwatch. Nododd bod diffyg rheolaeth gyffredinol o’r eiddo a’u bod yn awyddus i weld cydymffurfiaeth a threfn.

c) Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor am gydymffurfio cyn y cyfnod clo, nododd yr Arolygydd bod cydymffurfiaeth gydag oriau cau, ond bod pobl yn dueddol o fod yn araf yn ymadael â’r safle. Ategwyd nad oedd cwynion wedi dod i law ynglŷn â diffygion cydymffurfiaeth oriau cau

ch) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd ganddynt drwy lythyr.

Dadleuodd y Cyfreithiwr ar ran Ms Meek y canlynol:

- Nad oedd digwyddiad difrifol wedi digwydd ar y safle
- Nad oedd digwyddiad wedi ei gyfeirio at y Llys yn ystod 2020
- Bod deilydd y drwydded wedi cydweithio gyda’r Heddlu gan ddarparu recordiad TCC
- Bod unigolyn trydydd parti yn achosi aflonyddwch i Ms Meek a bod yr Heddlu yn ymwybodol o hynny
- Cwestiynu bodolaeth y ddeiseb ac os oedd yr enwau ar y ddeiseb yn rhai gwir ynteu ffug
- Bod y TCC o ansawdd rhesymol
- Bod defnydd o gardiau adnabod ffug yn broblem ym Mangor
- Bod deilydd y drwydded yn cynnig defnyddio goruchwylwyr drysau ar adegau prysur yn unig
- Bod enwau unigolion sydd wedi eu gwahardd gan Pubwatch yn cael ei cylchredeg, ond dim lluniau

Ategodd Ms Meek

- Ei bod yn cydymffurfio gydag oriau cau
- Bod costau cyflogi goruchwylwyr yn ddrud
- Bod llawer o’r cyhuddiadau yn ffug
- Ei bod yn cydweithio gyda’r cyhoedd, yr Heddlu a’r Cyngor i redeg busnes da
- Nad oedd cerddoriaeth yn broblem - bod y gerddoriaeth yn debygol o fod yn dod o gampfa gyfagos
- Bod 4 deilydd trwydded i’r eiddo.

Swyddog Iechyd yr Amgylchedd,

- Bod rhybudd wedi ei osod ar yr eiddo yn dilyn tystiolaeth gafodd ei ryddhau gan yr Heddlu o dor rheoliadau covid 19
- Bod yr Uned yn parhau i roi cyngor i Ms Meek ynglŷn â sicrhau diogelwch y cyhoedd
- Bwriad yr Uned yw ymweld â’r eiddo i sicrhau cydymffurfiaeth pan fydd cyfyngiadau covid yn caniatáu hynny

- Bod yr Uned yn rhoi cefnogaeth i Ms Meek er mwyn sicrhau llwyddiant y diwydiant

Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu

- Ei fod wedi ymweld â'r eiddo (16 Medi 2020) ar y cyd gyda Swyddog Trwyddedu'r Heddlu yn dilyn cwynion am sŵn cerddoriaeth uchel yn dod o'r eiddo yn ystod cyfnod cyfyngiad covid
- Bod deilydd y drwydded yn teimlo'n rhwystredig gan fod deilwyr trwydded eiddo ym Mangor Uchaf yn anfon pobl wedi eu gwahardd i lawr i'r Waverley
- Ei fod wedi cyferio cwynion am gyffuriau i'r Heddlu
- Bod ymweliad arall ar 25ain o Fedi wedi amlygu nad oedd Asesiad Risg Covid yn gyflawn
- Ymweliadau pellach a gohebiaeth yn dilyn cwynion ynghyd a thystiolaeth fideo oedd wedi ei rannu ar y cyfryngau cymdeithasol yn dangos diffyg cydymffurfiaeth gyda rheolau pelau cymdeithasol covid

Cyfeiriwyd at y sylwadau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Tân

d) Yn manteisio ar y cyfle i gloi ei achos, nododd yr Arolygydd ei fod yn hapus gyda chynnwys yr adroddiad ysgrifenedig, bod yr argymhellion yn glir a'i fod yn hapus i gydweithio gyda deilydd yr eiddo i sicrhau gwelliannau arwyddocaol

dd) Ymneilltuodd yr Heddlu, deilydd y drwydded ynghyd a'i chynrychiolydd cyfreithiol, y Rheolwr Trwyddedu, Swyddog yr Amgylchedd a'r Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu
o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais

e) Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor adroddiad llafar yr Heddlu (gan gynnwys tystiolaeth fideo a lluniau), sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu yn ogystal â sylwadau llafar a dderbyniwyd yn y gwrandawiad. Ystyriwyd hefyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Roedd yr holl ystyriaethau yn cael eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

**PENDERFYNWYD caniatáu adolygiad i'r drwydded gan ddiwygio Atodiad 3 o'r drwydded fel a ganlyn.**

**<u>TCC</u> - dileu pwynt 1 a nodi'r canlynol yn ei le:**

**"Bydd sustem TCC ddigidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio, gan fonitro tu mewn a thu allan i'r eiddo. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae tu allan i'r eiddo yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i faes parcio'r eiddo ac ardaloedd eistedd tu allan."**

**<u>Goruchwylwyr Drysau</u> - dileu'r paragraff presennol a rhoi'r canlynol yn ei le:**

**"Bydd yr eiddo yn cyflogi lleiafswm o 2 goruchwyliwr drws wedi eu hachredu yn briodol gan yr Awdurdod Diwydiant Diogelwch i fod ar yr eiddo bob nos Wener a nos Sadwrn o 18:00 tan 30 munud yn dilyn awr derfynol agor i'r cyhoedd. Bydd y gofyniad hwn hefyd yn berthnasol ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau wedi eu trefnu lle rhagwelir y bydd nifer uwch o gwsmeriaid yn mynychu'r lleoliad."**

**<u>Mewnosod adran 'Her 25'</u>**

1. **Bydd yr eiddo yn mabwysiadu a gweithredu polisi Her 25, lle bydd gofyn i gwsmeriaid sydd yn ymddangos i fod o dan 25 mlwydd oed brofi eu hoedran wrth brynu alcohol, fel arall rhaid gwrthod y gwerthiant.**
2. **Bydd dulliau derbyniol o brawf adnabod yn cynnwys pasbort, cerdyn trwydded yrru gyfredol neu brawf adnabod arall fel y darperir gan yr Awdurdod Trwyddedu yn ei Bolisi Trwyddedu.**
3. **Bydd yr eiddo yn gosod arwyddion yn dwyn sylw cwsmeriaid i'r polisi Her 25**
4. **Bydd yr eiddo yn hyfforddi pob staff perthnasol ar y polisi ac yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r hyfforddiant hwnnw.**
5. **Bydd yr eiddo yn cadw cofnod ysgrifenedig o werthiannau a wrthodwyd mewn llyfr gwrthodiadau.**
6. **Bydd y cofnodion ysgrifenedig hyn ar gael ar gyfer archwilio ar gais gan Awdurdod Cyfrifol."**

**Noder bod mwyafrif o argymhellion yr Heddlu parthed TCC eisoes mewn grym yn Atodiad 3 o'r drwydded bresennol.**

**Ni ychwanegwyd amodau, rhybuddion na gorchmynion mewn perthynas â chydymffurfiaeth rheoliadau COVID-19 oherwydd bod fframwaith cyfreithiol arwahan yn berthnasol ar gyfer gorfodi'r darpariaethau hyn.**

**Ni ychwanegwyd amodau o ran diogelwch tân, gan fod fframwaith cyfreithiol arwahan yn berthnasol ar gyfer gorfodi safonau diogelwch tân.**

Diolchwyd i bawb am gyflwyno sylwadau ar y cais.
Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau.

Cyflwynodd yr Heddlu gais am adolygiad yn fras ar 3 sail:
1. Methiant yr eiddo i gydymffurfio gydag amod gorfodol Atodiad 1, paragraff 3 o'r drwydded bresennol (mewn perthynas â mabwysiadu polisi gwirio oedran)
2. Methiant yr eiddo i gydymffurfio gydag amodau yn Atodiad 3 o'r drwydded bresennol (yn ymwneud â TCC)
3. Methiant cyffredinol yr eiddo i gynnal tŷ tafarn trefnus

I gefnogi'r sail yfed dan oed, honnodd yr Heddlu bod alcohol wedi ei weini i o leiaf 2 unigolyn o dan 18 oed ar 19 Medi 2020. Arhosodd yr unigolion ar yr eiddo am gyfanswm oriau o 21 awr. Dangoswyd yr Heddlu glip TCC fel tystiolaeth ar gyfer y digwyddiadau hyn.

I gefnogi'r sail TCC, dywedodd yr Heddlu bod llawer o ardaloedd heb eu goruchwylio'n briodol. Nodwyd absenoldeb y maes parcio a'r ardal eistedd tu allan, a oedd wedi eu cuddio gan ambarelau. Daeth y methiannau hyn i'r amlwg pan wnaed cais i weld clip TCC, yn dilyn digwyddiad o ymosodiad difrifol ar 19 Medi 2020. Ni chafwyd recordiad ohono oherwydd diffyg darpariaeth TCC

priodol.

Ar gyfer y sail trefn gyhoeddus, honnodd yr Heddlu bod sawl digwyddiad o fethiant gan yr eiddo:

(i) Ar 19 Medi 2020 cafodd 2 unigolyn oedd yn destun gwaharddiad Pubwatch ar y pryd eu gweini gan yr eiddo. Adnabuwyd yr unigolion dan sylw mewn clip TCC.

(ii) Ar 19 Medi 2020 bu sawl toriad o gyfyngiadau Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 fel y dangoswyd mewn clipiau TCC. Arweiniodd hyn at gyhoeddi rhybudd gwella eiddo ar 23 Hydref 2020 gan Iechyd Amgylcheddol Cyngor Gwynedd, oedd yn cynnwys:

- methiant i ymlynu at ymbellhau cymdeithasol 2m, fel y tystiolaethwyd gan ddeilydd y drwydded yn cofleidio pobl yn rheolaidd ac yn cymdeithasu â gwahanol bobl yn ardal y bar;
- methiant i gydymffurfio â chanllawiau yn ymwneud â 6 fesul bwrdd o'r un aelwyd, fel y tystiolaethwyd gan ddeilydd y drwydded ei hun yn eistedd wrth fwrdd gyda 10 o bobl;
- cwsmeriaid yn ciwio wrth far prysur heb unrhyw gyfyngiad ar niferoedd nag ymbellhau cymdeithasol;
- dim tystiolaeth o olchi dwylo/defnydd o ddiheintydd gan gwsmeriaid neu staff;
- dim tystiolaeth o wybodaeth profi ac olrhain;
- gosodiad y byrddau ddim yn cyd-fynd ag ymbellhau cymdeithasol;
- staff ddim yn gwisgo masgiau
- cwsmeriaid ddim yn gwisgo masgiau wrth symud o gwmpas y dafarn tan yn eistedd wrth fwrdd a neilltuwyd iddynt.

iii) Bu digwyddiadau o gwffio/ymddygiad afreolus ar 16 Awst 2020 (gan gynnwys 20+ o bobl), 16 Medi 2020 (ffrae rhwng 2 ddyn) a 19 Medi 2020 (pobl yn cwffio tu allan).

Ystyriwyd sylwadau Swyddog Gorfodaeth Trwyddedu oedd yn cadarnhau rhwng 23 Medi 2020 a 15 Hydref 2020 bu iddo dderbyn negeseuon oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn honni camddefnydd cyffuriau ar yr eiddo, yn ogystal â gweld postiadau cyfryngau cymdeithasol yn datgelu diffyg cydymffurfiaeth â gofynion ymbellhau cymdeithasol ac yfed dan oed.

Yn ogystal, darparwyd sylwadau oddi wrth Swyddog Iechyd Amgylcheddol yn manylu ar y camau gorfodaeth a gyflwynwyd gan y gwasanaeth mewn perthynas â'r eiddo ynglŷn â'r rheoliadau COVID-19.

Mewn ymateb, honodd Ms Meek (deilydd y drwydded eiddo) drwy ei chyfreithiwr (Mr Strain) mewn perthynas â'r yfed dan oed, bod yr eiddo wedi dioddef o'r defnydd o gardiau adnabod ffug. Mewn perthynas â'r sail TCC dywedodd deilydd y drwydded bod y ddarpariaeth yn briodol, ond y byddai gwelliannau yn cael eu gwneud. O ran y sail trefn gyhoeddus, honnodd deilydd y drwydded y byddai eiddo trwyddedig eraill ym Mangor Uchaf yn gyrru cwsmeriaid trafferthus at ei heiddo hi, ond derbyniodd hefyd na ddylai'r digwyddiadau fod wedi digwydd.

O bwyso a mesur, roedd yr Is-bwyllgor yn canfod bod yr oll seiliau y dibynwyd arnynt gan yr Heddlu dros gynnal adolygiad wedi cael eu profi. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y digwyddiadau o yfed dan oed yn torri'r amcan trwyddedu o ddiogelu plant rhag niwed. Roedd diffyg ymlyniad o ran TCC yn cynrychioli torri pob un o'r pedwar amcan trwyddedu, tra bo'r holl ddigwyddiadau o dan y sail

trefn gyhoeddus (gyda'i gilydd ac yn unigol) yn torri'r amcanion trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn a sicrhau diogelwch cyhoeddus.

Tra bo'r Is-bwyllgor yn nodi bod deilydd y drwydded wedi derbyn na ddylai'r digwyddiadau trefn gyhoeddus fod wedi digwydd, nid oedd wedi ei berswadio na chael argraff dda gan yr honiad bod problemau'r eiddo o ganlyniad i eiddo ym Mangor Uchaf yn annog cwsmeriaid digroeso i fynychu'r Waverley. Ni chyflwynwyd tystiolaeth a hyd yn oed petai'r honiad yn wir, buasai'n amherthnasol: mae cyfrifoldeb dros reolaeth yr eiddo yn gorwedd yn llwyr gyda deilydd y drwydded.

Nododd yr Is-bwyllgor y bu cyfeiriad at ddeiseb a oedd yn ôl pob sôn wedi ei lofnodi gan 2500 o unigolion, yn galw am gau yr eiddo i lawr. Nid yw'n glir pam bu cyfeiriad at y ddeiseb gan nad oedd yn ffurfio rhan o achos yr Heddlu. Ni ddarparwyd copi o'r ddeiseb. Adroddwyd bod rhaid i benderfyniad yr Is-bwyllgor fod yn seiliedig ar dystiolaeth i ddigwyddiadau penodol oedd yn tanseilio'r amcanion trwyddedu ac er y nodwyd bodolaeth y ddeiseb, nid oedd hynny ynddo'i hun yn darparu tystiolaeth o ddigwyddiadau unigol. O dan yr amgylchiadau, ni fu i'r Is-bwyllgor ystyried y ddeiseb at ddibenion cyrraedd penderfyniad.

O dan yr amgylchiadau, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod cynnwys yr amodau ychwanegol fel yr amlinellwyd uchod ar y drwydded yn ddymunol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn gydnaws â'r pedwar amcan trwyddedu, a chaniatawyd y cais am adolygiad.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd yn bresennol. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 12.15 y.h.

**CADEIRYDD**